# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

**RHAN 2**

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**PENNOD 2**

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth*

**40 Dyletswydd i lunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo'n cael ei dwyn i sylw awdurdod cartref yng Nghymru neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall—

(a) y gall fod gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol, a

(b) nad oes cynllun datblygu unigol yn cael ei gadw gan awdurdod lleol o dan adran 42.

(2) Rhaid i'r awdurdod—

(a) penderfynu a oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol, a

(b) os yw'n penderfynu bod gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol, benderfynu yn unol â rheoliadau o dan adran 46 a fydd angen cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff ei ryddhau er mwyn diwallu anghenion rhesymol y person sy'n cael ei gadw'n gaeth am addysg neu hyfforddiant.

(3) Cyn i'r awdurdod cartref wneud ei benderfyniad rhaid iddo wahodd y person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol i fod yn rhan o'r penderfyniad ac, os oes angen cynllun datblygu unigol, yn rhan o'r gwaith o lunio cynllun datblygu unigol.

(4) Os yw'r awdurdod cartref yn penderfynu nad oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol neu na fydd angen cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff ei ryddhau, rhaid iddo hysbysu'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn, a'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad.

(5) Os yw'r awdurdod cartref yn penderfynu bod gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol ac y bydd angen cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff ei ryddhau, rhaid iddo—

- (a) llunio cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth, a
- (b) rhoi copi o'r cynllun i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn, a'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol.

(6) Os yw'r awdurdod cartref yn llunio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo—

- (a) penderfynu a ddylai darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, a
- (b) os yw'n penderfynu y dylai math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei ddarparu yn Gymraeg, bennu yn y cynllun y dylai gael ei ddarparu yn Gymraeg.

(7) Os na fydd yn bosibl diwallu anghenion rhesymol y person sy'n cael ei gadw'n gaeth am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol pan gaiff ei ryddhau oni bai bod yr awdurdod cartref hefyd yn sicrhau darpariaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (8), rhaid i'r awdurdod gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth arall honno yn y cynllun.

(8) Y mathau o ddarpariaeth yw—

- (a) lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall;
- (b) bwyd a llety.

(9) O ran y ddyletswydd yn is-adran (7)—

- (a) nid yw'n gymwys i le mewn ysgol benodol neu sefydliad arall nad yw'n ysgol a gynhelir yng Nghymru os nad yw'r person neu'r corff sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol neu'r sefydliad arall yn cydsynio;
- (b) mae'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn adrannau 55, 56(3) a 59.